

## Yr Elyrch ac Esgob Tyddewi

*Diolch i Richard E Huws, Bont-goch, am adrodd yr hanes diddorol hwn*

Mae amser yn hedfan. Mae wythnosau wedyn mynd heibio ers i'r tymor pêl-droed ail-ddechrau. Dwi'n dilyn tîm pêl-droed Abertawe. Mae **cysylltiad arwyddocaol** rhwng y tîm hwnnw ac Esgobaeth Tyddewi sy'n mynd nôl i ddechrau'r clwb.

Yn 1912 cafodd clwb Abertawe ei **sefydlu** fel tîm proffesiynol. Roedd hyn yn ddiweddarach na mewn llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru oherwydd bod rygbi mor **boblogaidd** yno.

Dau ddiwrnod cyn i'r tîm chwarae'r gêm gyntaf yng **Nghynghrair** y De cafodd gêm **gyfeillgar** ei threfnu yn erbyn Merthyr. Hon oedd y gêm **gystadleuol** gyntaf i Abertawe chwarae. Collodd Abertawe'r gêm honno, ond fe sgoriodd y tîm un gôl. Y **chwaraewr** sgoriodd y gôl oedd William Thomas Havard a dyna'r **cysylltiad** gydag Esgobaeth Tyddewi.



Cafodd Havard ei eni yn Nefynnog, de Powys, yn 1889. Nid dim ond pêl-droed oedd e'n chwarae. Roedd e hefyd yn chwarae rygbi i Lanelli a Chymry Llundain ac fe wnaeth e chwarae un gêm rygbi ryngwladol dros Gymru.

**Yn ogystal â'i ddiddordeb** mewn chwaraeon roedd Harward wedi ei **ordeinio** yn yr Eglwys yng Nghymru. Dechreuodd ei waith fel **gweinidog** fel curad ym mhlwyf Llanelli. Yn 1934 cafodd ei **ethol** yn Esgob Llanelwy cyn cael ei **drosglwyddo** i fod yn Esgob Tyddewi yn 1950.

Bu farw yn 1956, ac mae wedi ei **gladdu** yn Aberhonddu.

Dim ond un gêm chwaraeodd Havard dros yr Elyrch, ond fe wnaeth e adael ei farc ar hanes y clwb. Nid pob tîm sy'n medru dweud bod eu gôl gyntaf wedi ei sgorio gan ddyn a ddaeth yn esgob!

alarch (elyrch) = swan(s)  
cysylltiad = link  
arwyddocaol = significant  
sefydlu = establish  
poblogaidd = popular  
cynghrair = league  
cyfeillgar = friendly  
cystadleuol = competitive  
chwaraewr = player  
yn ogystal â = as well as  
diddordeb = interest  
ordeinio = ordain  
gweinidog = minster  
ethol = elect  
trosglwyddo = transfer  
claddu = bury

*William Thomas Havard gan ffotograffydd anhysbys, print bromid gwreiddiol, tua 1930au. NPG x159136 © Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol, Llundain. CC BY-NC-ND 3.0*